Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

National Assembly for Wales
Children, Young People and Education Committee

Lesley Griffiths AC
Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi

29 Hydref 2015

**Craffu ar y Gyllideb**

Annwyl Weinidog

Diolch i chi am gytuno i fod yn bresennol mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg fel rhan o'r broses o graffu ar gyllideb Llywodraeth Cymru.

Cyn y cyfarfod hwnnw, byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar os gallech roi gwybodaeth am y materion canlynol i'w gynorthwyo yn y gwaith o graffu.

**Manylion Dyraniadau'r Llinell Wariant yn y Gyllideb**

Mae'r Pwyllgor yn gofyn am:

- Ddadansoddiad o ddyraniadau'r Prif Grŵp Gwariant Cymunedau a Threchu Tlodi (fel sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc) fesul Maes Rhaglen Wariant, Cam Gweithredu a Llinell Wariant yn y Gyllideb;
- Dadansoddiad o ddyraniadau 2015-16 a'r canlyniadau amcanol, a chanlyniadau terfynol 2014-15;
- Sylwadau ar bob un o'r camau gweithredu o fewn Prif Grŵp Gwariant Cymunedau a Threchu Tlodi fel sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc, gan gynnwys dadansoddiad o'r newidiadau ers y Gyllideb Derfynol yn Rhagfyr 2014 ac esboniad arnynt, ac ers y gyllideb atodol gyntaf ym mis Mehefin 2015.

**Hawliau Plant a chydraddoldebau**

Mae'r Pwyllgor yn gofyn am:

- Gopi o'r Asesiad Effaith Hawliau Plant a lywiodd y Gyllideb Ddrafft 2016-17 yn ei chyfanrwydd;
- Manylion am ba newidiadau, os o gwbl, a wnaed i ddyraniadau o fewn y Gyllideb Ddrafft 2016-17 o ganlyniad i'r Asesiad Effaith Hawliau Plant;

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPPIA@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCYPE
0300 200 6565

- Copi o'r Asesiad Effaith Hawliau Plant a gynhaliwyd i lywio'r dyraniadau yn y Prif Grŵp Gwariant Cymunedau a Threchu Tlodi o fewn Cyllideb Ddrafft 2016-17;
- Manylion am ba newidiadau, os o gwbl, a wnaed i ddyraniadau o fewn y Prif Grŵp Gwariant Cymunedau a Threchu Tlodi o ganlyniad i'r Asesiad Effaith Hawliau Plant;
- Gwybodaeth am sut y mae cydraddoldebau, cynaliadwyedd a'r Gymraeg wedi cael eu hystyried wrth ddyrannu'r gyllideb, ac unrhyw enghreifftiau lle y mae ystyriaethau o'r fath wedi dylanwadu'n uniongyrchol ar ddyrannu'r gyllideb neu wedi newid cynigion cychwynnol.

**Gwybodaeth arall**

Mae'r Pwyllgor hefyd yn gofyn am:

- Wybodaeth yn ymwneud â sut y caiff cyflawni'r ymrwymiadau o ran plant a phobl ifanc yn y portffolio Cymunedau a Threchu Tlodi a'r canlyniadau sy'n gysylltiedig â hyn ei fonitro a'i werthuso i ddangos **gwerth am arian.**
- Manylion y costau sy'n gysylltiedig ag **Ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu** yn y portffolio Cymunedau a Threchu Tlodi fel sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc, ac a fyddant yn cael eu cyflawni o fewn y gyllideb sydd ar gael;
- Manylion y polisïau neu raglenni penodol yn y Prif Grŵp Gwariant Cymunedau a Threchu Tlodi (fel sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc) y bwriedir iddynt fod yn **ataliol,** a sut y caiff gwerth am arian a manteision cost rhaglenni o'r fath ei werthuso.
- Gwybodaeth am ddyraniadau (a'u lleoliad) yn y portffolio Cymunedau a Threchu Tlodi i ddarparu ar gyfer **deddfwriaeth a allai gael effaith yn y flwyddyn ariannol 2016-17** fel sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc.

**Meysydd penodol**

*Dechrau'n Deg*

- Dyraniadau ar gyfer 2016-17 wedi'u dadelfennu i'r pedwar hawl Dechrau'n Deg;
- Manylion ynghylch sut y mae gwerth am arian o ran y canlyniadau i blant wedi'i asesu ar gyfer y dyraniadau Dechrau'n Deg ar gyfer 2016-17;
- Cost a ragwelir fesul plentyn y cynnig gofal plant (a phob sesiwn i bob plentyn) ar sail y dyraniadau yn y Gyllideb Ddrafft 2016-17;
- A yw'r nifer sy'n manteisio ar yr hawl o ran iaith a chwarae yn parhau i gael ei ddiffinio fel nifer y rhieni a oedd yn bresennol yn y sesiwn gyntaf, ac felly, sut y mae gwerth am arian yn cael ei asesu o ran y dyraniadau yn y Gyllideb Ddrafft 2016-17.

*Cymorth arall i deuluoedd*

- Dyraniadau a sylwebaeth o ran y Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf;
- Dyraniadau a sylwebaeth o ran darparu Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd.

*Grant Cyflawni Plant a Theuluoedd*

- Sylwadau am y dyraniadau i'r prosiectau a ariennir bellach fel rhan o'r pum maes blaenoriaeth, gan gynnwys unrhyw gynnydd neu ostyngiad yn y dyraniadau ar gyfer 2016-17 o gymharu â'r dyraniadau a nodwyd yn y cytundebau grant gwreiddiol.

*Tlodi plant*

- Pa ffactorau sydd wedi dylanwadu ar y dyraniadau tlodi plant yn y Gyllideb Ddrafft 2016-17?

*Hawliau plant a phobl ifanc*

- Pa ffactorau sydd wedi dylanwadu ar y dyraniadau hawliau plant yn y Gyllideb Ddrafft 2016-17?

*Comisiynydd Plant Cymru*

- Sylwadau ar ba faterion sydd wedi llywio'r gwaith o ddyrannu gwariant ar gyfer swyddfa Comisiynydd Plant Cymru;
- Sut y mae'r dyraniad yn ystyried effaith bosibl rhoi argymhellion yr Adolygiad o Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru ar waith, o gofio nad yw'r Gweinidog wedi amlinellu ei hymateb llawn i'r argymhellion hyd yma.

*Eiriolaeth*

- Sylwadau ar y newidiadau o ran gwariant yn 2016-17 yn sgîl y penderfyniad i derfynu'r contract MEIC yn gynt na'r disgwyl;
- Sylwadau ar drosglwyddo £1.6 miliwn o'r cam Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd o'r portffolio Cymunedau a Threchu Tlodi i'r Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol o ran y Gronfa Eiriolaeth, fel y nodir yn y Gyllideb Atodol gyntaf ym mis Mehefin 2015;

*Polisi Chwarae*

- Sylwadau ac unrhyw fwriad ynhylch dyraniadau yn y dyfodol ar gyfer y gwaith y mae Chwarae Cymru wedi cael £400,000 i'w gyflawni, am gyfnod o 18 mis, o 1 Hydref 2014 (fel y cyfeirir ato ym mhapur y Gweinidog i'r Pwyllgor ar gyfer y sesiwn graffu ar 4 Mehefin 2015).

*Gofal plant*

- Gwybodaeth am y ffactorau sydd wedi'u hystyried wrth benderfynu ar y dyraniadau ar gyfer polisi a rhaglenni gofal plant;
- A oes unrhyw ddyraniadau wedi'u gwneud yn y Gyllideb Ddrafft 2016-17 o ganlyniad i'r dyraniadau gwerth £0.05 miliwn yn 2015-16 i gynnal astudiaeth

ddichonoldeb yn 2015-16 i lywio cynllun peilot gofal plant ar gyfer myfyrwyr Addysg Bellach yn 2016-17.

A oes unrhyw ddyraniadau wedi'u gwneud yn y Gyllideb Ddrafft 2016-17 o ran y Rhaglen Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth fel y cyfeirir ati ym mhapur y Gweinidog i'r Pwyllgor ar gyfer y sesiwn graffu ar 4 Mehefin 2015, a sylwadau am y dyraniadau hyn.

Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar o gael y wybodaeth uchod erbyn **Dydd Iau 10 Rhagfyr**.

Gyda llawer o ddiolch am ein cynorthwyo gyda'n gwaith craffu.

Yn gywir

**Ann Jones AC**
Cadeirydd